**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
28 Ionawr 2025

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025 ('Rheoliadau') yn diwygio pum set o Reoliadau presennol Safonau'r Gymraeg fel bod 6 chorff ychwanegol ac 1 categori o bersonau yn agored i orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ('safonau'). Bydd hyn yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') i roi hysbysiad cydymffurfio i'r cyrff hynny. Mae'r Rheoliadau yn gwneud safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu a safonau cadw cofnodion (ynghyd â safonau sy'n ymdrin â materion atodol) yn benodol gymwys i'r 6 chorff a'r 1 categori o bersonau drwy eu hychwanegu at Reoliadau presennol ar Safonau'r Gymraeg fel a ganlyn:

| **Corff** | **Rheoliadau** |
|---|---|
| Awdurdod Cyllid Cymru | Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 |
| Y Comisiwn Ffiniau i Gymru | Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 |
| Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol | Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 |
| Cymwysterau Cymru | Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 |
| Panel Dyfarnu Cymru | Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016 |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru (hefyd yn Awdurdod Iechyd Arbennig) | Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017<br><br>**safonau 90 a 90A yn unig* |
| Awdurdodau Iechyd Arbennig (categori o bersonau) | Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 |

1.2 Mae'r pedwar corff canlynol yn dod o fewn y categori Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n darparu gwasanaethau mewn perthynas â Chymru: Iechyd a Gofal Digidol Cymru; Addysg a Gwella Iechyd Cymru; Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ac Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 <u>Nid yw safonau hybu yn benodol gymwys</u>

2.2 Mae'r Rheoliadau Rhif 1, sy'n gymwys i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol, hefyd yn pennu safonau hybu. Mae adran 38 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'), ac Atodlen 6 iddo, yn datgan y gall safonau hybu ond fod yn gymwys i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol neu i berson sy'n cydsynio. Ni ellir gwneud y safonau hybu yn Rheoliadau Rhif 1 yn gymwys i Awdurdod

Cyllid Cymru oni bai eu bod wedi cydsynio i hynny. Ni cheisiwyd cydsyniad o'r fath gan nad yw safonau hybu yn berthnasol i waith Awdurdod Cyllid Cymru. O ganlyniad, nid yw'r Rheoliadau yn gwneud safonau 145, 146, 173 a 174 (pob un ohonynt yn ymwneud â hybu) yn benodol gymwys i Awdurdod Cyllid Cymru. Nid yw safonau hybu wedi'u pennu yn Rheoliadau Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7.

2.3 Panel Dyfarnu Cymru

2.4 Nid yw'r Rheoliadau Rhif 4, sy'n gymwys i dribiwnlysoedd Cymru, yn awdurdodi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i 4 o'r 5 Tribiwnlys sydd eisoes wedi'u rhestru yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau gydymffurfio â'r safonau gweithredu, na'r safonau cadw cofnodion sy'n ymwneud â safonau gweithredu, a'r safonau atodol sy'n ymwneud â safonau gweithredu. Hynny am fod y sefydliadau yn cael eu gweinyddu gan staff Llywodraeth Cymru ac mae'r staff hynny'n cael eu cynnwys yn y safonau gweithredu y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â nhw.

2.5 Felly, nid yw'r Rheoliadau yn awdurdodi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i Banel Dyfarnu Cymru gydymffurfio â safonau gweithredu, na safonau cadw cofnodion sy'n ymwneud â safonau gweithredu, a safonau atodol sy'n ymwneud â safonau gweithredu. Mae’r Panel hefyd yn dribiwnlys a weinyddir gan staff Llywodraeth Cymru ac felly rydym wedi dod i'r casgliad y dylid ei drin yn yr un modd â'r pedwar tribiwnlys arall a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.

2.6 Ychwanegu 'Awdurdodau Iechyd Arbennig' fel categori i Reoliadau Rhif 7

2.7 Mae'r Rheoliadau Rhif 7 yn gwneud safonau yn benodol gymwys i gategorïau o gyrff, er enghraifft ‘Byrddau Iechyd Lleol’ ac ‘Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol’. Nid yw Byrddau Iechyd Unigol wedi'u henwi yn y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau yn dilyn y cynsail hwn ac yn gwneud safonau yn benodol gymwys i 'Awdurdodau Iechyd Arbennig' yn hytrach nag enwi Awdurdodau Iechyd Arbennig yn unigol. Bydd y dull hwn yn diogelu'r Rheoliadau at y dyfodol ac yn caniatáu i'r Comisiynydd osod safonau priodol ar unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig newydd a fydd o bosibl yn cael ei greu yn y dyfodol sy'n darparu gwasanaethau mewn perthynas â Chymru. Nid yw'r ffaith bod safonau'n benodol gymwys i Awdurdod Iechyd Arbennig yn golygu y bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon benodol. Er enghraifft, os nad yw Awdurdod Iechyd Arbennig yn darparu'r gwasanaeth y mae'r safonau'n ymwneud ag ef, mae'n debygol iawn na fydd y safonau'n cael eu gosod arnynt neu na fyddant yn gymwys. Fel y nodwyd ym mharagraff 4.2 isod, nid yw'n ofynnol i berson gydymffurfio â safon oni bai bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person gydymffurfio â'r safon honno.

2.8 Mae'r diffiniadau yn rheoliad 1(4) o "glinig gwasanaeth iechyd gwladol" ("national health service clinic") ac "ysbyty gwasanaeth iechyd gwladol" ("national health service hospital") yn Rheoliadau Rhif 7 hefyd wedi'u

diwygio i gynnwys Awdurdodau Iechyd Arbennig. Bydd y dull hwn yn diogelu'r Rheoliadau at y dyfodol ac yn caniatáu i'r Comisiynydd osod safonau priodol ar unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig newydd a fydd o bosibl yn cael eu creu yn y dyfodol sy'n darparu gwasanaethau mewn perthynas â Chymru.

2.9 <u>Addysg a Gwella Iechyd Cymru</u>

2.10 Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae'r Rheoliadau'n nodi y bydd yr holl safonau yn y Rheoliadau Rhif 7 yn benodol gymwys i Awdurdodau Iechyd Arbennig. Mae'r Rheoliadau hefyd yn pennu bod safonau 90 a 90A yn Rheoliadau Rhif 6 (sy'n ymwneud â chyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg) yn gymwys i Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Hynny er mwyn adlewyrchu rôl unigryw'r corff fel addysgwr yn y sector iechyd. Bydd hyn yn caniatáu i'r Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i Addysg a Gwella Iechyd Cymru a gosod unrhyw rhai o'r safonau o Reoliadau Rhif 7 a safonau 90 a 90A o Reoliadau Rhif 6. Mater i'r Comisiynydd fydd penderfynu pa rhai o'r safonau penodol gymwys y mae'n ystyried eu bod yn rhesymol ac yn gymesur i'w gosod.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Caiff y Rheoliadau ei gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (‘y Mesur’). Mae adran 26 y Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau drwy reoliadau. Mae adran 27 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau gwahanol ar gyfer ymddygiadau gwahanol. Mae hefyd yn eu galluogi i bennu un safon neu nifer o safonau ar gyfer ymddygiad penodol.

3.2 Cyn y gall y Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i gorff (y cyfeirir ato fel “person” yn y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon, rhaid i'r safon honno fod yn benodol gymwys i'r person hwnnw (adran 25). Mae adran 39 yn darparu bod safon yn benodol gymwys i berson pan fydd Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw yn ymwneud â'r safon honno. Mae adran 105(5) yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn cynnwys pŵer i wneud y cyfryw ddarpariaethau trosiannol, darfodol, canlyniadol ac arbed, darpariaethau cysylltiedig ac unrhyw ddarpariaethau eraill sy’n angenrheidiol neu’n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

3.3 Yn unol ag Adran 150(2) o'r Mesur, rhaid i'r Rheoliadau gael eu gosod gerbron Senedd Cymru, a'u cymeradwyo drwy benderfyniad ganddo (h.y. y weithdrefn gadarnhaol).

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Cadarnhaodd y Mesur statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith. Cam allweddol i roi effaith i'r Mesur yw pennu safonau ac awdurdodi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i bersonau gydymffurfio â'r safonau hyn.

4.2 Mae adran 25 y Mesur yn darparu ei bod yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon a bennir gan Weinidogion Cymru os bodlonir amodau penodol. Mae'r amodau hynny'n cynnwys y canlynol:

i. Bod safon yn benodol gymwys i'r person (h.y. mae Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw mewn perthynas â'r safon honno);
ii. Bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person;
iii. Bod yr hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i'r person gydymffurfio â'r safon;
iv. Bod yr hysbysiad cydymffurfio mewn grym.

4.3 Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi'r Comisiynydd i osod safonau mewn hysbysiad cydymffurfio sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau canlynol:

- Mae **safonau cyflenwi gwasanaethau** yn ymwneud a darparu gwasanaethau er mwyn hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ac i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Mae **safonau llunio polisi** yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Mae **safonau gweithredu** yn ymwneud â'r defnydd mewnol o'r Gymraeg gan gyrff.
- Mae **safonau cadw cofnodion** yn ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir gan gorff.
- Mae **safonau atodol** yn delio â materion amrywiol gan gynnwys llunio adroddiad blynyddol, trefniadau monitro a darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd.

4.4 Mae'r safonau wedi'u paratoi gyda'r nod o:

- gynyddu defnydd pobl o wasanaethau Cymraeg;
- gwella'r gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gan gyrff;
- ei gwneud yn glir i gyrff yr hyn y mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg.

4.5 Ni fydd y Rheoliadau, pan fyddant yn dod i rym, yn cael effaith uniongyrchol ar gyrff ac ni fyddant, ar eu pennau eu hunain, yn creu hawliau i aelodau'r cyhoedd. Bydd hynny ond yn digwydd pan fydd yr holl amodau yn adran 25 y Mesur wedi'u bodloni (gweler paragraff 4.2 uchod). Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn gam hanfodol yn fframwaith y Mesur

a byddant yn galluogi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i gyrff gydymffurfio â'r safonau.

4.6 Mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar gyrff drwy roi hysbysiad cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r ystod o safonau yn Rheoliadau Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7 y gellid eu gosod ar gorff. Efallai y bydd corff yn gorfod cydymffurfio â safon mewn rhai amgylchiadau yn unig ac nid mewn amgylchiadau eraill, yn dibynnu ar yr hyn a nodir yn ei hysbysiad cydymffurfio. Bydd yr hysbysiad cydymffurfio hefyd yn nodi'r dyddiad y mae'n ofynnol i'r corff gydymffurfio â safon.

4.7 Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r corff, rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r corff yn unol ag adran 47 o'r Mesur (oni bai bod y Comisiynydd yn fodlon bod hynny wedi digwydd eisoes neu bod y corff wedi cael y cyfle i gyfrannu at ymgynghoriad ar y mater fel rhan o ymchwiliad safonau).

*Apelio*

4.8 Bydd cyrff yn gallu herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol ar sail p'un a yw'n rhesymol ac yn gymesur disgwyl iddynt wneud hynny. Yn y lle cyntaf, bydd corff yn gallu cyflwyno her i'r Comisiynydd. Os yw am herio penderfyniad y Comisiynydd, gellir apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac yna i'r Uchel Lys.

*Sancsiynau*

4.9 Y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r safonau hyn. Mewn achosion lle bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod corff wedi methu â chydymffurfio â safon, gall gymryd camau gorfodi. O dan y Mesur, gall camau gorfodi amrywio o lunio argymhellion neu roi cyngor i gorff, i orfodi cosb sifil nad yw'n fwy na £5,000.

## 5. Risgiau os na chaiff y Rheoliadau eu gwneud

5.1 Os na chaiff y Rheoliadau arfaethedig eu gwneud, bydd y risgiau canlynol yn cael eu gwireddu:

- Methu â rhoi elfen allweddol o'r Mesur ar waith. Hynny yw, cyflwyno'r system safonau ac awdurdodi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau.
- Efallai na chaiff corff sy'n ymwneud â'r cyhoedd ei gynnwys yn y system safonau newydd.
- Bydd anghysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau.
- Bydd y cyhoedd yn ansicr ynghylch pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Bydd yr ansicrwydd yn parhau os na chaiff y Rheoliadau eu gwneud i ganiatáu i safonau gael eu gwneud yn benodol gymwys i gyrff sy'n dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 6 i'r Mesur.

- Ni fydd cyrff sydd â Chynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn trosglwyddo i'r system safonau. Os bydd y Cynlluniau Iaith yn parhau, ni fydd trefn orfodi ar gael os bydd corff yn methu â chydymffurfio â'i gynllun.

5.2 Ceir rhagor o wybodaeth am risgiau a manteision gweithredu'r safonau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod, ac mae'r risgiau o beidio â chyflwyno safonau wedi'u hamlinellu yn adran 'Opsiwn 1: gwneud dim' y manteision.

## 6. Ymgynghori

6.1 Cynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i ychwanegu chwe chorff ychwanegol a chategori o bersonau at rai rheoliadau safonau presennol rhwng 24 Mehefin 2024 a 7 Hydref 2024.

6.2 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys galwad ar gyrff i gyflwyno data er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru baratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnwys yn Rhan 2 isod.

6.3 Ni wnaeth yr ymgynghoriad ymgynghori'n benodol ar wneud rhai safonau yn Rheoliadau Rhif 6 yn benodol gymwys i Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Gwnaeth y corff ei hun gais am hyn yn ystod y broses ymgynghori. O ganlyniad, nid ydym yn ystyried bod angen i ni ymgynghori ymhellach â'r corff ar hyn.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### *7.* Opsiynau, costau a manteision

7.1 Gofynnwyd i'r 10 corff (6 chorff a 4 Awdurdod Iechyd Arbennig) sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn gymryd rhan mewn ymarfer casglu data yn ymwneud ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a ddosbarthwyd gyda'r ymgynghoriad ar ychwanegu'r cyrff hyn at y rheoliadau safonau presennol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 24 Mehefin 2024 a 7 Hydref 2024. Yn dilyn ceisiadau gan rai cyrff, cafodd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymarfer ei ymestyn i 31 Hydref 2024 er mwyn rhoi mwy o amser i'r cyrff ymateb. Cyflwynodd 6 o'r 10 corff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn ymateb i’r ymarfer casglu data.

7.2 Mae'r dadansoddiad canlynol o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r safonau wedi'u seilio ar yr ymatebion a ddarparwyd gan y 6 chorff hyn.

### 8. Crynodeb o'r ymatebion

8.1 Gofynnwyd i gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau ystyried a oedd manteision i'r corff o gydymffurfio â'r set arfaethedig o reoliadau safonau. Roedd 4 corff o'r farn y byddai manteision; un corff o'r farn y byddai manteision a dim manteision; ac ni wnaeth un corff nodi unrhyw fanteision.

8.2 Gofynnwyd i'r cyrff ystyried manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol ac ieithyddol cydymffurfio â safonau. Mae'r ymatebion wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

| Math o fantais | Disgrifiad o fantais cydymffurfio â’r safonau arfaethedig |
|---|---|
| Mantais economaidd | Ymatebodd 3 o'r 6 chorff a nodi manteision, gan gynnwys:<br><br>• Cred bod cynnig gwasanaethau dwyieithog yn helpu pobl i dalu'r dreth gywir y tro cyntaf.<br>• Mae datblygu apiau cyhoeddus dwyieithog yn gost-effeithiol o'i gymharu â fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.<br>• Mae defnyddio tîm cyfieithu mewnol wedi lleihau costau cyfieithu a gwella effeithlonrwydd wrth gyhoeddi adroddiadau, polisïau a chyfathrebiadau cyhoeddus.<br>• Mae uwchsgilio staff yn darparu sgiliau trosglwyddadwy iddynt ar gyfer rolau yn y dyfodol.<br>• Gall bod yn sefydliad dwyieithog greu mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio, gwaith a gomisiynir, areithiau, ac ymddangosiadau mewn cynadleddau. |
| Mantais gymdeithasol | Ymatebodd 4 o'r 6 chorff a nodi manteision, gan gynnwys: |

| | |
|---|---|
| | • Mae cefnogi dysgu Cymraeg yn gwella rhyngweithio cymdeithasol a dealltwriaeth o brosesau treth.<br>• Mae gwasanaethau dwyieithog yn cefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru, sy'n cyd-fynd ag uchelgais "Cymraeg 2050" Llywodraeth Cymru<br>• Mae cefnogi staff gyda hyfforddiant Cymraeg yn eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid.<br>• Bydd Safonau'r Gymraeg yn cryfhau'r diwylliant Cymraeg cryf a ddatblygwyd o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.<br>• Bydd Safonau'r Gymraeg yn darparu manteision cymdeithasol drwy ganiatáu i staff gael mynediad at fwy o ohebiaeth a systemau mewnol yn Gymraeg.<br>• Bydd yn gwella'r berthynas a'r cyfathrebu â sefydliadau sydd eisoes yn defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith swyddogol neu ddewisedig.<br>• Bydd yn galluogi staff Cymraeg i sgwrsio yn eu dewis iaith, gan hyrwyddo cydlyniant cymunedol<br>• Mae defnyddio'r Gymraeg yn hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol ar lefel genedlaethol a rhyngwladol<br>• Bydd yn gwella statws iechyd a chymdeithasol a bydd modd cysylltu a mynegi teimlad yn well. |
| Mantais amgylcheddol | Ymatebodd 3 o'r 6 chorff a nodi manteision, gan gynnwys:<br><br>• Mae gwasanaethau dwyieithog yn sicrhau bod trethdalwyr yn gallu rhyngweithio yn eu dewis iaith<br>• Mae hyrwyddo swyddi gwag ar wefannau recriwtio Cymraeg ac mewn ysgolion uwchradd Cymraeg yn cefnogi creu swyddi lleol ac yn lleihau allfudo o ran siaradwyr Cymraeg medrus, gan effeithio'n gadarnhaol ar gymunedau Cymraeg.<br>• Mae cysylltiad cryf rhwng iaith, treftadaeth a lle. Mae disgrifio tirweddau ac adnoddau naturiol yn y Gymraeg yn meithrin ymdeimlad o berthyn a stiwardiaeth tuag at y wlad a'i hasedau naturiol. |
| Mantais ieithyddol | Ymatebodd 4 o'r 6 chorff a nodi manteision, gan gynnwys:<br><br>• Bydd yn darparu mwy o gyfleoedd i staff ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a chynyddu nifer y staff sydd â sgiliau siarad, ysgrifennu a darllen yn Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| | • Bydd yn annog staff i ddysgu Cymraeg a defnyddio'r sgiliau hynny gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid<br>• Bydd yn cefnogi uchelgais "Cymraeg 2050" Llywodraeth Cymru ac yn cyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol, gan gynnwys hyrwyddo diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.<br>• Bydd yn caniatáu i gwsmeriaid a rhanddeiliaid gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg os ydynt yn dymuno, yn enwedig wrth i fwy o staff ddod yn siaradwyr Cymraeg |
| Manteision eraill | Ymatebodd 4 o'r 6 chorff a nodi manteision, gan gynnwys:<br>• Bydd effaith gadarnhaol bosibl ar enw da ac ymgysylltu â gweithwyr, er y gall cydymffurfio â safonau roi pwysau ar adnoddau.<br>• Mae darparu gwasanaeth dwyieithog yn ased sylweddol i gorff.<br>• Bydd cydymffurfio â safonau yn caniatáu adolygu a gwella arferion cyfredol.<br>• Ceir manteision diwylliannol o gyfrannu at dwf y Gymraeg. |

## 9. Cywirdeb a defnyddioldeb y data ariannol

9.1 Er bod cyrff wedi ceisio asesu goblygiadau ariannol cydymffurfio â'r safonau, mae'r ansicrwydd ynghylch pa safonau y bydd gofyn i bob corff gydymffurfio â nhw yn golygu bod gennym rai pryderon ynghylch yr wybodaeth a ddarperir ac a yw'n darparu sail i gynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol cadarn a chywir. Bu pryderon tebyg mewn perthynas â rheoliadau safonau blaenorol.

9.2 Mae un corff wedi darparu amcangyfrif o gostau sy'n ymddangos yn annisgwyl o uchel. Nid beirniadaeth ar ymdrechion y cyrff i amcangyfrif costau yw hyn, na'u rhesymeg wrth wneud hynny, ond yn hytrach cydnabyddiaeth o'r anawsterau o ran amcangyfrif costau'n gywir o dan system lle na fyddant yn gwybod pa ddyletswyddau y disgwylir iddynt gydymffurfio â nhw, ac o dan ba amgylchiadau, hyd nes y cânt hysbysiad cydymffurfio gan y Comisiynydd.

9.3 Er enghraifft, mae un corff wedi amcangyfrif costau o £7,000,000 o ran systemau a chostau staff o £5,700,000 i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cyflenwi gwasanaethau. Roedd yr amcangyfrif hwn yn sylweddol uwch na'r costau a nodwyd gan y cyrff eraill. Roedd yr amcangyfrif yn cynnwys costau sefydlu a gweithredol ar gyfer cynnal systemau, yn ogystal â chostau system ar gyfer darparu gwefannau, gohebiaeth a chanolfan gyswllt. Roedd y costau staff amcangyfrifedig yn cynnwys recriwtio, rheoli corfforaethol a chostau staffio blynyddol. Nid yw'r amcangyfrifon hyn wedi

ein harwain i gredu bod y safonau cyflenwi gwasanaethau yn afresymol gan fod cyrff eraill wedi awgrymu y byddent yn gallu cydymffurfio ar gost llawer is. Fodd bynnag, mae'n enghraifft o sefyllfa lle gallai'r Comisiynydd geisio rhagor o wybodaeth ac ystyried a yw'r safon yn rhesymol ar gyfer corff penodol, neu a ddylid cynnwys amod yn yr hysbysiad cydymffurfio i sicrhau bod y safon yn cael ei gosod mewn modd rhesymol.

9.4 Wrth osod dyletswyddau ar gyrff o dan reoliadau safonau blaenorol, nid yw'r Comisiynydd wedi gosod pob un o'r safonau ar unrhyw gorff unigol. Mae'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd heb unrhyw amodau yn fach. Os caiff y Rheoliadau hyn sêl bendith y Senedd, caiff gwybodaeth bellach ei chasglu gan gyrff pan fydd y Comisiynydd yn ymgynghori ar hysbysiadau cydymffurfio drafft. Ar ôl derbyn hysbysiad cydymffurfio drafft, bydd gan gorff ddealltwriaeth lawer gwell o union natur y dyletswyddau y mae'r Comisiynydd yn bwriadu eu gosod arno. Bydd felly mewn sefyllfa well i ddarparu costau cywir. Yna bydd modd cynnal asesiad llawnach o'r effaith ariannol, a byddai'r Comisiynydd yn ei ystyried fel rhan o'r ystyriaeth o ba ddyletswyddau sy'n rhesymol ac yn gymesur i'w gosod ar y cyrff unigol.

## 10. Yr opsiynau: costau a manteision

10.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn:

- Opsiwn 1: Gwneud dim - byddai'r cyrff yn parhau i weithredu eu Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, os oes ganddynt un.

- Opsiwn 2: Cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar gyfer y cyrff sydd wedi'u rhestru yn y Rheoliadau.

10.2 Mae'r dadansoddiad canlynol yn ystyried y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hyn yn eu tro.

*Costau*

*Opsiwn 1: Gwneud dim*

10.3 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol o dan yr opsiwn hwn. Ni fyddai angen i'r cyrff hyn gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ond byddai disgwyl iddynt barhau i weithredu eu Cynlluniau Iaith presennol (os oes ganddynt un). Os nad oes gan gorff Gynllun Iaith, yna bydd yn parhau i weithredu heb unrhyw ymrwymiadau na dyletswyddau o ran ei ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg.

10.4 Mae Tabl 1 yn crynhoi'r wybodaeth a dderbyniwyd am y gost o gydymffurfio â'r Cynlluniau Iaith presennol, neu faint mae corff yn ei wario ar wasanaethau a/neu weithgareddau Cymraeg yn flynyddol.

Tabl 1 - Costau ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Iaith Gymraeg / gwasanaethau Cymraeg presennol (y flwyddyn)

| | **Costau cydymffurfio** | **Costau staff** |
|---|---|---|
| Cymwysterau Cymru | £250,000 | £700,000 |
| Awdurdod Cyllid Cymru* | £10,420 | £26,798 |
| Awdurdod Iechyd Arbennig | £60,000 (wedi gostwng i £25,000 ers cynnwys y tîm cyfieithu mewnol)<br><br>£5,000 ar gyfer cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd Bwrdd | £150,000 |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru* | £26,000* | £109,000 |
| Awdurdod Iechyd Arbennig* | £252,000 | Amherthnasol |

* Nid oes gan y cyrff hyn Gynllun Iaith Gymraeg

10.5 Mae'r prif gostau sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Iaith Gymraeg neu wasanaethau Cymraeg yn cynnwys cyfieithu, hyfforddi staff, systemau a meddalwedd (gan gynnwys cynnal a chadw), gorbenion, ymgyrchoedd ac argraffu.

10.6 Mae Cymwysterau Cymru wedi nodi costau staffio o £700,000 y flwyddyn i weithredu eu Cynllun Iaith Gymraeg presennol. Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar 9 swydd lle mae’r Gymraeg yn hanfodol. Mae hefyd wedi adnabod costau staffio ychwanegol o £51,000 i gydymffurfio â safonau sy’n ymwneud ag amcangyfrif o'r amser sydd ei angen gan staff eraill. Nid yw'r ffaith bod swydd yn un lle mae’r Gymraeg yn hanfodol o reidrwydd yn golygu y gellir ynysu'r gost yn ei chyfanrwydd fel gwariant ar y Gymraeg. Mae aelodau o staff sy'n gallu darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn aml yn gallu darparu'r un gwasanaethau i'r cyhoedd yn Saesneg hefyd. Er enghraifft, os yw corff yn darparu gwasanaeth fel ateb galwadau ffôn, byddai aelod o staff fel arfer ar gael i ddarparu gwasanaeth ffôn Saesneg os nad oes angen gwasanaeth Cymraeg. Rydym yn gwerthfawrogi, fodd bynnag, y gellir ynysu rhai swyddi (e.e. cyfieithydd) neu gyfran o swydd fel gwariant ar y Gymraeg.

10.7 Nid oes gan bob un o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn Gynllun Iaith Gymraeg. Er bod rhai o'r cyrff eisoes yn darparu llawer o'u gwasanaethau yn Gymraeg beth bynnag, rydym yn cydnabod efallai na fydd gan rai Awdurdodau Iechyd Arbennig systemau ar waith ar hyn o bryd i gynnig gwasanaethau Cymraeg i'r un lefel ag sy'n ofynnol yn ôl

safonau. Gallai cydymffurfio â safonau i gwmpasu'r ystod lawn o wasanaethau y maent yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru felly arwain at fwy o gostau o ran systemau a staff. Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu a ddylid gosod safonau ar gorff ai peidio, ac yna penderfynu pa safonau i'w cynnwys yn hysbysiad cydymffurfio'r corff. Rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg ymgynghori â'r cyrff cyn cyhoeddi'r hysbysiadau cydymffurfio terfynol, a chaiff ffactorau megis pa mor rhesymol a chymesur yw safonau unigol eu hystyried yn y cam hwn.

*Opsiwn 2: Cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar gyfer y cyrff sydd wedi'u rhestru yn y Rheoliadau*

*Safonau cyflenwi gwasanaethau*

10.8 Roedd dau gorff o'r farn na fyddai safonau cyflenwi gwasanaethau yn effeithio ar eu hadnoddau na sut maent yn defnyddio'r adnoddau hynny. Mae'r pedwar corff arall a ymatebodd yn rhagweld o leiaf rai costau ychwanegol er mwyn gallu cydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau - mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chostau cyfieithu, staff, hyfforddiant a systemau. At ei gilydd, roedd cyrff yn amcangyfrif bod y costau ychwanegol rhwng £18k - £205k (costau staff a systemau). Nododd rhai cyrff, ond nid pob un ohonynt, a yw'r costau ychwanegol hyn yn debygol o fod yn gostau untro (e.e. costau cyfreithiol neu offer) neu'n gostau cylchol (e.e. costau staff, cyfieithu a hyfforddiant). Nododd dau gorff gostau staffio yn benodol fel cost gylchol neu flynyddol, gydag un yn amcangyfrif costau cylchol o £87k ar gyfer cyfieithu a hyfforddiant, a'r corff arall yn amcangyfrif cynnydd blynyddol i gostau staffio o £144k. Mae un corff (sy'n Awdurdod Iechyd Arbennig) wedi amcangyfrif costau ychwanegol o dros £12 miliwn (costau staff a systemau).

10.9 Mae'r amcangyfrif o £12 miliwn yn cynnwys costau sefydlu a gweithredol ar gyfer cynnal a chadw systemau, sy'n cynnwys darparu gwefannau, gohebiaeth a safonau cyflenwi gwasanaethau ar gyfer canolfannau cyswllt. Maent yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r costau ar gyfer systemau yn cael eu hysgwyddo ym mlwyddyn 1, sef y buddsoddiad fydd ei angen i wneud gwelliannau i systemau i fodloni safonau cyflenwi gwasanaethau gyda chost cynnal a chadw parhaus o flwyddyn 2. Mae'r amcangyfrif ar gyfer costau staffio yn cynnwys recriwtio, rheolaeth gorfforaethol a chostau staffio blynyddol. Disgwylir i'r rhain gael eu hysgwyddo'n flynyddol o flwyddyn 1, a rhagwelir y bydd angen cynnwys dyfarniad cyflog yn y blynyddoedd i ddod.

10.10 Rydym yn cydnabod bod amgylchiadau pob corff yn wahanol, ac y gallai fod goblygiadau cost amrywiol yn dibynnu ar natur y cyrff. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai fod gan rai cyrff gostau untro uwch i ddechrau os nad oes darpariaethau yn eu lle ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth a ddarperir gan y corff yn ymddangos yn sylweddol uwch o gymharu â'r costau amcangyfrifedig a ddarparwyd gan gyrff eraill. Unwaith eto, hoffem bwysleisio nad beirniadaeth ar ymdrechion y cyrff yw hyn a'n bod yn cydnabod ei bod yn anodd

amcangyfrif costau yn gywir pan nad yw corff yn gwybod pa ddyletswyddau y disgwylir iddynt gydymffurfio â nhw, ac o dan ba amgylchiadau. Rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r cyrff cyn cyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio terfynol ac ystyried a fyddai'n rhesymol ac yn gymesur gosod safon.

10.11 Nid yw'r amcangyfrifon hyn yn unig wedi gwneud i ni feddwl ei bod yn afresymol gwneud safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i Awdurdodau Iechyd Arbennig fel categori o bersonau. Nid yw ein dull o ychwanegu Awdurdodau Iechyd Arbennig fel categori yn golygu y bydd yn ofynnol i gyrff gydymffurfio â phob safon. Y bwriad yw sicrhau bod hyblygrwydd i'r Comisiynydd osod safonau y mae'n credu sy'n rhesymol ac yn gymesur ar gyfer Awdurdod Iechyd Arbennig penodol, gan gynnwys unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig a grëir yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl y bydd y Comisiynydd, wrth ymgynghori â chyrff, yn ceisio rhagor o wybodaeth i benderfynu a yw safon yn rhesymol ar gyfer corff penodol, neu a ddylid cynnwys amod yn yr hysbysiad cydymffurfio i sicrhau bod y safon yn cael ei gosod mewn modd rhesymol. Erbyn hynny, bydd cyrff yn gliriach ynghylch pa safonau sy'n debygol o gael eu gosod arnynt. Bydd hyn yn galluogi cyrff i ddarparu asesiad effaith ariannol llawnach a mwy manwl fel rhan o unrhyw ymgynghoriad gan y Comisiynydd.

10.12 Mae Cymwysterau Cymru yn rhagweld costau untro o £5k a chostau cylchol o £86k ar gyfer systemau a chostau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â staff , ynghyd â £1k ar gyfer hyfforddiant staff. Mae'r costau amcangyfrifedig hyn yn ymwneud â chyfieithu, offer, hyfforddiant staff a chostau cyfreithiol i gefnogi newidiadau i gontractau a dogfennau tendro.

10.13 Mae Awdurdod Cyllid Cymru yn disgwyl ysgwyddo cost o £18k ar gyfer digwyddiadau addysgol ac ymgysylltu ac mae wedi nodi cynnydd posibl mewn costau cyfieithu er mwyn cydymffurfio â safonau'n ymwneud â chyfarfodydd a chyrsiau yn ogystal â chostau cyfieithu uwch mewn ymateb i gyflwyno gwasanaeth Ardoll Ymwelwyr newydd. Nododd hefyd efallai na fydd rhai gwasanaethau digidol yn cydymffurfio'n llawn â safonau, a allai arwain at gostau, ond ni fyddai'r union gostau'n dod yn glir ond pan fydd wedi derbyn ei hysbysiad cydymffurfio yn dilyn trafodaeth gyda'r Comisiynydd. Rydym yn nodi'r cynnydd a ragwelir mewn costau cyfieithu. Ar hyn o bryd mae'r corff yn gweithredu yn yr ysbryd ac yn unol â Rheoliadau Rhif 1 waeth beth fo'u dyletswyddau cyfreithiol, felly ni fyddem o reidrwydd yn ystyried y costau cyfieithu sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth Ardoll Ymwelwyr newydd fel cost ychwanegol yn ymwneud â'r Gymraeg. Yn unol â'i ddull presennol o weithredu yn ôl Rheoliadau Rhif 1, disgwylir y byddai llawer o'r costau hynny'n cael eu hysgwyddo waeth a osodir unrhyw ddyletswyddau drwy'r Rheoliadau hyn.

10.14 Mae un Awdurdod Iechyd Arbennig wedi adrodd na fydd unrhyw gostau ychwanegol oherwydd bod ganddynt staff Cymraeg eisoes mewn rolau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau.

10.15 Nododd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol fod ei Gynllun Iaith Gymraeg presennol yn cyd-fynd â safonau cyflenwi gwasanaethau y rheoliadau arfaethedig gan nodi y byddant yn asesu unrhyw oblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau a chostau wrth baratoi ar gyfer safonau.

10.16 Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn rhagweld costau o £60k o ran systemau a £144k o gostau staff blynyddol, yn bennaf ar gyfer gweithgareddau cyfieithu ac ymwybyddiaeth.

*Safonau llunio polisi*

10.17 Nid oedd pump o'r chwe chorff a ymatebodd o'r farn y byddai'r safonau llunio polisi yn y rheoliadau arfaethedig yn cael effaith ar eu hadnoddau na sut maent yn defnyddio'r adnoddau hynny. Nododd un corff arall y byddai'r safonau llunio polisi yn effeithio ar eu hadnoddau neu sut maent yn defnyddio'r adnoddau hynny.

10.18 Dywedodd un Awdurdod Iechyd Arbennig nad oedd costau ychwanegol/ staff yn gysylltiedig â'r safonau.

10.19 Mae Ymddiriedolwyr y Gronfa Goffa Treftadaeth Genedlaethol yn cydnabod bod ganddynt rôl o ran hybu a chefnogi'r Gymraeg i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn ogystal â nod ac uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn creu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Nododd y Gronfa y byddant yn adolygu unrhyw oblygiadau o ran adnoddau a chostau sy'n gysylltiedig â'r safonau hyn pan fyddant yn adolygu eu harferion wrth baratoi ar gyfer safonau.

10.20 Nododd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru gostau cychwynnol o £6k ar gyfer cyfieithu polisïau a gweithdrefnau cyfredol, a £29.3k arall y flwyddyn o amser a hyfforddiant staff i sicrhau bod polisïau'n cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ni ddylai cydymffurfio â safonau llunio polisi, ynddo'i hun, olygu bod yn rhaid i gorff gyfieithu polisïau i'r Gymraeg. Mae'r dyletswyddau a ddaw yn sgil y safonau hynny'n ymwneud ag ystyried effaith polisi ar y Gymraeg, yn hytrach nag iaith y ddogfen bolisi ei hun.

10.21 Nododd Awdurdod Iechyd Arbennig arall ei fod yn dilyn polisïau a osodwyd gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU a chyrff comisiynu eraill. Roedd yr Awdurdod Iechyd Arbennig o'r farn y byddai angen ymgynghori â'r cyrff hyn yn uniongyrchol i asesu'r effaith, gan na all amcangyfrif ar eu rhan. Byddai safonau llunio polisi, pe baent yn cael eu cymhwyso i gorff, yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ystyried effaith polisïau'r corff ei hun ar y Gymraeg. Gallai hyn gynnwys polisi sy'n

ymwneud â gwasanaeth a ddarperir i aelod o'r cyhoedd neu bolisi sy'n ymwneud â staff. Er enghraifft, byddai angen i bolisi sy'n ymwneud â chontractau ar gyfer gwasanaethau neu hyfforddiant staff ystyried yr effaith ar y Gymraeg.

10.22 Mae gan y Comisiynydd yr hyblygrwydd i benderfynu a ddylid gosod safonau ar gorff ai peidio, ac yna penderfynu pa safonau i'w cynnwys yn hysbysiad cydymffurfio’r corff. Gall y Comisiynydd osod safon mewn rhai amgylchiadau ond nid mewn amgylchiadau eraill. Rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r cyrff cyn cyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio terfynol ac ystyried a fyddai'n rhesymol ac yn gymesur gosod safonau llunio polisi.

*Safonau gweithredu*

10.23 Roedd pedwar o'r chwe chorff a ymatebodd o'r farn y byddai'r safonau gweithredu yn y rheoliadau arfaethedig yn cael effaith ar eu hadnoddau neu sut maent yn defnyddio'r adnoddau hynny. Nododd un corff arall nad oedd yn hysbys eto a fyddai unrhyw effaith, ac roedd un corff arall o'r farn na fyddai unrhyw effaith.

10.24 Nododd Cymwysterau Cymru gostau untro o £40k a chostau cylchol o £30k ar gyfer newid i systemau a chyfieithu parhaus, ynghyd â chostau staff untro o £1k a £49k y flwyddyn ar gyfer hyfforddiant yn bennaf.

10.25 Dywedodd Awdurdod Cyllid Cymru y gallai ysgwyddo costau TG ychwanegol i sicrhau bod ei fewnrwyd yn cydymffurfio'n llawn, ond nad oedd yn gallu darparu'r union ffigurau heb wybod canlyniad trafodaethau cydymffurfio, a beth fyddai'r gofynion a osodir.

10.26 Nododd un Awdurdod Iechyd Arbennig ei fod yn gwario tua £1,500 yn flynyddol ar ddysgu Cymraeg ar gyfer staff, gyda chostau staff yn anodd eu hamcangyfrif wrth i staff gael amser i ffwrdd i ddysgu yn ystod oriau gwaith.

10.27 Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn amcangyfrif costau system o £18.1k a chostau staff blynyddol o £16.4k ar gyfer cyfieithu ac ymgynghori er mwyn gallu darparu deunydd Adnoddau Dynol yn Gymraeg, gan gynnwys cyfieithu'r system Pobl i'r Gymraeg. Mae hefyd wedi amcangyfrif cost flynyddol o £400 i ddarparu slipiau cyflog yn Gymraeg i staff sydd wedi gofyn am hyn.

10.28 Mae Awdurdod Iechyd Arbennig arall yn rhagweld £750,000 mewn costau systemau, yn bennaf yn y flwyddyn gyntaf, i wneud gwelliannau i systemau gyda chostau cynnal a chadw parhaus o'r ail flwyddyn ymlaen.

*Safonau cadw cofnodion a safonau sy'n ymdrin â materion atodol*

10.29 Nododd pump o'r chwe chorff a ymatebodd nad oedd unrhyw oblygiadau cost ychwanegol o orfod cydymffurfio â safonau cadw cofnodion neu

safonau sy'n ymdrin â materion atodol. Nododd un corff y byddai goblygiadau o ran costau.

10.30 Mae Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn credu y bydd yn gallu cydymffurfio â safonau cadw cofnodion ond byddant yn adolygu unrhyw oblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau a chostau pan fyddant yn deall yn well pa safonau y byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw.

10.31 Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn rhagweld £4.6k y flwyddyn o gostau staff ar gyfer cydymffurfio â safonau cadw cofnodion a materion atodol. Mae hyn yn cynnwys £1k y flwyddyn ar gyfer cyfieithu cwynion y mae aelod o staff di-Gymraeg yn delio â nhw. Mae costau ychwanegol hefyd wedi'u dyrannu i ddelio â chwynion ychwanegol, creu cynlluniau cydymffurfio a chynhyrchu adroddiadau blynyddol.

10.32 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r costau ychwanegol a nodwyd gan y 6 chorff yn eu hymatebion i'r ymarfer casglu data, fesul categori o safonau. Mae cyfanswm y costau ar gyfer pob categori o safonau mewn print trwm.

| Corff | Safonau cyflenwi gwasanaethau | Safonau llunio polisi | Safonau gweithredu | Safonau cadw cofnodion ac atodol |
|---|---|---|---|---|
| **Cymwysterau Cymru** | **£92k**<br><br>(£5k o gostau untro)<br><br>(£87,000 o gostau cylchol) | | **£120k**<br><br>(£41,000 o gostau untro)<br><br>(£79k o gostau cylchol) | |
| **Awdurdod Cyllid Cymru** | **£18k** | | | |
| **Awdurdod Iechyd Arbennig** | Dim costau ychwanegol / staff cysylltiedig | Dim costau ychwanegol / staff cysylltiedig | **£1.5k**<br>(cost flynyddol) | Dim costau ychwanegol / staff cysylltiedig |
| **Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol** | | | | |
| **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** | **£204k**<br><br>(£60k o gostau system)<br><br>(£144k o | **£35.3k**<br><br>(£6k o gostau system untro<br><br>(£29.3k o | **£34.5k**<br><br>(£18.1k o gostau system)<br><br>(£16.4k o | **£4.6k**<br><br>(£4.6k o |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gostau staff blynyddol) | gostau staff a hyfforddiant blynyddol) | gostau staff blynyddol) | gostau staff blynyddol) |
| **Awdurdod Iechyd Arbennig** | **£12.7 miliwn**<br><br>(£7m o gostau system a £5.7m o gostau staff) | | **£750k**<br><br>(costau system - amcangyfrifir bod y rhan fwyaf o'r costau ym mlwyddyn 1 gyda chostau parhaus o flwyddyn 2) | |

*Manteision*

*Opsiwn 1: Gwneud dim*

10.33 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac nid oes manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r sefyllfa bresennol sef cydymffurfio â Chynlluniau Iaith Gymraeg (lle mae gan gyrff gynllun). Byddai'r Comisiynydd yn parhau â'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth â chynlluniau. Os nad oes gan gorff Gynllun Iaith, yna bydd yn parhau i weithredu heb unrhyw ymrwymiadau na dyletswyddau o ran ei ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg.

*Opsiwn 2: Cyflwyno Safonau'r Gymraeg*

10.34 Amlinellir nodau'r safonau ym mharagraff 4.4 uchod. Ar hyn o bryd (a hyd nes bod Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i gorff), mae ond yn bosibl amlinellu'r manteision a ddisgwylir yn sgil y safonau yn gyffredinol gan nad yw'n hysbys pa safonau y byddai disgwyl i bob corff gydymffurfio â nhw.

10.35 Bydd gosod cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau o dan y system safonau naill ai'n eu symud o system y Cynlluniau Iaith Gymraeg, a ddaeth i rym o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, i'r system safonau a gyflwynwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, neu'n helpu i ffurfioli ac adeiladu ar drefniadau sydd eisoes ar waith i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael. Bydd hefyd yn sicrhau bod y cyrff hyn o dan yr un system reoleiddio â chyrff tebyg sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y rheoliadau safonau presennol.

10.36 Bydd y safonau'n nodi'n glir beth y mae angen i'r cyrff ei wneud o ran y Gymraeg, fel bod y cyhoedd yn gwybod beth i'w ddisgwyl o ran gwasanaethau Cymraeg. Bydd yr eglurder hwn, ar gyfer y cyhoedd a'r

cyrff, yn helpu i sicrhau bod y safonau'n gallu cael eu gorfodi'n effeithiol a dylai sicrhau bod y cyrff yn glir ynghylch y lefel o wasanaeth y mae angen iddynt ei darparu yn Gymraeg. Ni all y Comisiynydd ond pennu safonau sy'n rhesymol ac yn gymesur ar gyfer pob corff unigol.

10.37 Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw bwerau gorfodi o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993; ddim ond o dan Fesur y Gymraeg. Mae'r drefn orfodi y darperir ar ei chyfer o dan y system safonau yn caniatáu dull mwy effeithiol o ymdrin ag achosion honedig o ddiffyg cydymffurfiaeth er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn ddiweddar, mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno dull o gyd-reoleiddio sy'n golygu gweithio'n agosach ac yn fwy rhagweithiol gyda chyrff i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.

10.38 Mae'r Comisiynydd wedi gosod safonau'r Gymraeg ar 131 o gyrff cyhoeddus hyd yn hyn. Mae'r Comisiynydd hefyd yn comisiynu arolwg blynyddol o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl canlyniadau'r arolwg blynyddol diweddaraf fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol 2023-24:

- Roedd 79% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod fel arfer yn gallu delio â chyrff cyhoeddus yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny (cododd hyn i 86% pan oedd yr ymatebydd yn siaradwr Cymraeg rhugl).
- Roedd 74% o'r ymatebwyr o'r farn bod y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gyrff cyhoeddus yn gwella.
- Roedd 75% o'r ymatebwyr yn dweud bod cyrff cyhoeddus yn gofyn iddynt ym mha iaith yr hoffent ddelio â nhw.
- Roedd 65% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau'n ei gwneud yn glir eu bod ar gael.

## 11. Casgliad

11.1 Mae'r ansicrwydd presennol ynghylch pa safonau y bydd angen i bob corff gydymffurfio â nhw, ac o dan ba amgylchiadau, yn golygu nad yw'n bosibl llunio asesiad cadarn ar hyn o bryd o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau.

11.2 Rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg ymgynghori â'r cyrff cyn cyhoeddi'r hysbysiadau cydymffurfio terfynol, a bydd ffactorau megis pa mor rhesymol a chymesur yw safonau unigol yn cael eu hystyried yn y cam hwn. Fel rhan o'r broses hon, gallai'r cyrff gyflwyno asesiad o'r costau a'r manteision cymharol sy'n gysylltiedig â'r safonau. Gallai'r Comisiynydd ystyried hyn wrth benderfynu a yw'r safonau'n rhesymol ac yn gymesur.

## 12. Dyletswyddau

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

12.1 Mae’r Rheoliadau yn cefnogi amcanion ac egwyddorion llesiant Llywodraeth Cymru, yn enwedig *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r*

*Gymraeg yn ffynnu - sy'n gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg*. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Bydd y Rheoliadau yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg wrth i'r cyhoedd ymdrin â'r cyrff a enwir yn y Rheoliadau.

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.*

12.2 Ystyriwyd Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru, a daethpwyd i'r casgliad nad yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc.

*Y Gymraeg*

12.3 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a ddaeth i'r casgliad y byddai'r Rheoliadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac na fyddant yn arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

*Cydraddoldeb*

12.4 Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau. Nid ydynt yn codi unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol. Nid oes unrhyw effaith negyddol ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig. Bydd y rheoliadau'n caniatáu i siaradwyr Cymraeg dderbyn gwasanaethau Cymraeg gan y cyrff hyn, a bydd y gwasanaethau hynny ar gael i bob defnyddiwr gwasanaeth p'un a ydynt mewn grwpiau gwarchodedig ai peidio.

## 13. Asesiad o'r gystadleuaeth

13.1 Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau gael unrhyw effaith ar allu busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol i gystadlu.

## 14. Adolygu ar ôl gweithredu

14.1 Mae'r Mesur yn darparu cyfleoedd i'r Comisiynydd ddwyn sylw Gweinidogion Cymru at addasrwydd y safonau a bennwyd yn y Rheoliadau. Gall y Comisiynydd gyflwyno argymhellion neu roi cyngor i Weinidogion Cymru (adran 4 o'r Mesur) a allai argymell yn uniongyrchol ddiwygio'r Rheoliadau. Hefyd gallai Gweinidogion Cymru benderfynu ar sail cyngor a roddir gan y Comisiynydd y byddai'n briodol adolygu'r safonau. Rhaid iddynt roi sylw dyledus i unrhyw argymhellion neu gyngor ysgrifenedig y mae'r Comisiynydd yn eu rhoi wrth arfer y swyddogaeth y mae'r argymhelliad neu'r cyngor yn ymwneud â hi.

14.2 Mae Adran 18 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd baratoi adroddiad blynyddol. Rhaid i'r adroddiad hwnnw gynnwys adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg (ymhlith materion eraill) a gallai

hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn briodol eu cynnwys.

14.3 Yn ogystal, mae gan y Comisiynydd y pŵer i gynnal Ymchwiliad Safonau (adrannau 61 a 62 o'r Mesur) a all ystyried pa safonau a ddylai, neu a ddylai barhau i fod yn benodol gymwys i berson, p'un a yw'r safonau eisoes wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru ai peidio. Ar ôl cynnal Ymchwiliad Safonau, rhaid i'r Comisiynydd lunio Adroddiad Safonau a darparu copi ohono i Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i adroddiad o'r fath yn unol ag adran 66 o'r Mesur.

14.4 Yn amodol ar eu hysbysiadau cydymffurfio, bydd cyrff yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n amlinellu sut y maent wedi cydymffurfio â'r safonau a osodwyd arnynt. Gallai'r adroddiadau blynyddol hyn hefyd godi materion yn ymwneud ag addasrwydd y safonau a bennwyd.